

Cynllun Strategol Cydraddoldeb 2016-20

Amcanion Strategol Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu



Ein rôl fel Cyflogwr: Ni yw cyflogwr mwyaf y sir ac mae ein gweithlu'n cynnwys tua 8,000 o bobl (yn cynnwys gweithlu ysgolion). Rydym wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb yn ein gweithlu ac rydym yn dymuno bod yn enghraifft o arfer da i gyflogwyr eraill.

Amcan cydraddoldeb: Denu a chadw'r gweithlu gorau posib

Gweithred	Adran / isadran sy'n gyfrifol	Dyddiad cychwyn	Dyddiad gorffen
Denu a chadw talent, drwy annog yn gadarnhaol ymgeiswyr a gweithwyr o grwpiau a dangynrychiolir i ymgeisio am swyddi a chyfleoedd dilyniant gyrfa o fewn ein sefydliad	Timau Rheoli / Rheoli Pobl (AD a Dysgu a Datblygu)	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Adolygu ein hyfforddiant recriwtio yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod rheolwyr recriwtio a staff cymorth sy'n ymwneud â'r broses recriwtio yn deall ein gweithdrefnau corfforaethol, tra'n sicrhau tegwch a chydraddoldeb yn ystod pob cam o'r broses	Rheoli Pobl (Dysgu a Datblygu)	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Datblygu datganiad ymddygiad cyffredinol i gyd-fynd â'n gwerthoedd craidd newydd i sicrhau bod gweithwyr a rheolwyr yn gwerthfawrogi ac yn deall y Ddyletswydd Cydraddoldeb a sut mae'n berthnasol i'w rôl yn ein sefydliad	Grŵp Llywio Strategaeth ein Pobl / Rheoli Pobl (Ymgynghoriaeth)	Ebrill 2016	Mawrth 2017
Datblygu modiwl Croeso Corfforaethol ar-lein ac adolygu gweithdrefnau sefydlu adrannol er mwyn sicrhau bod gweithwyr newydd yn cael eu croesawu ac yn deall eu cyfrifoldebau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth, gwerthoedd craidd a safonau ymddygiad	Rheoli Pobl (Dysgu a Datblygu)	Ionawr 2016	Hydref 2016
Datblygu polisiau cyflogaeth a hyrwyddo mentrau sy'n cefnogi ein gweithwyr trwy gyfnodau o newid sefydliadol, sy'n gysylltiedig â gwaith neu her bersonol e.e. rheoli straen, ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, cam-drin domestig a chefnogaeth thrais rhywiol	Rheoli Pobl (AD, Dysgu a Datblygu a Iechyd Galwedigaethol)	Ebrill 2016	Mawrth 2020

Datblygu ein strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu er mwyn galluogi cyfathrebu dwy ffordd effeithiol a ffyrdd cyson ar gyfer sicrhau y clywir llais staff	Grŵp Llywio Strategaeth ein Pobl/Rheoli Pobl (Ymgynghoriaeth)	Gorffenna f 2016	Mawrth 2017
Darparu'r fframwaith ar gyfer rheolwyr i ddatblygu amgylchedd gwaith cadarnhaol i gefnogi presenoldeb rheolaidd, cynghori rheolwyr a monitro cysondeb, e.e. addasiadau rhesymol ar gyfer anabledd, gweithio hyblyg i gyfrifoldebau gofalu, amser i ffwrdd ar gyfer defodau crefyddol	Timoedd Rheoli/Rheoli Pobl (AD, Dysgu a Datblygu a Iechyd Galwedigaethol)	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Datblygu rhaglen integredig o gyfleoedd dysgu'r Gymraeg ar gyfer ein cyflogai	Adfywio a Pholisi / Rheoli Pobl (Dysgu a Datblygu)	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Defnyddio'r Prosiect 'Parod at Waith' (prentisiaethau, graddedigion, profiad gwaith, lleoliadau gwaith, gwirfoddoli) i ddenu a chadw grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, e.e. pobl ifanc, pobl ag anableddau, a monitro'r canlyniadau	Rheoli Pobl (Dysgu a Datblygu)	Ebrill 2015	Ebrill 2017 [estynnir os sicrheir cyllid ychwanego l)
Byddwn yn parhau i annog a monitro bod pob gweithiwr yn cael y cyfle i gwrdd â'u rheolwr i gynnal trafodaeth gwerthuso <i>Helpu Pobl i Berfformio trafodaeth (HPP)</i> o leiaf unwaith bob blwyddyn	Grŵp Llywio Strategaeth ein Pobl / Adfywio a Pholisi (Perfformiad a Gwybodaeth)	Ebrill 2016	Mawrth 2020

Ein rôl fel Cyflogwr: Ni yw cyflogwr mwyaf y sir ac mae ein gweithlu'n cynnwys tua 8,000 o bobl (yn cynnwys gweithlu ysgolion). Rydym wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb yn ein gweithlu ac rydym yn dymuno bod yn enghraifft o arfer da i gyflogwyr eraill.

Amcan Cydraddoldeb: Gweithio i wella'r data monitro cyflogaeth sy'n cael ei gadw gan yr Awdurdod Lleol a sicrhau fod gwahaniaethau cyflog yn cael eu hadnabod gan gymryd camau priodol

Gweithred	Adran / isadran sy'n gyfrifol	Dyddiad cychwyn	Dyddiad gorffen
Cynnal ein hymgyrch i annog gweithwyr i ddatgan gwybodaeth cydraddoldeb yn wirfoddol er mwyn lleihau bylchau yn y data, a deall yn well y cyfansoddiad ein gweithlu	Grŵp Llywio Strategaeth ein Pobl / Rheoli Pobl (AD, Cefnogaeth AD)	Medi 2016	Mawrth 2020
Cefnogi darparu data am y gweithlu i ysgolion er mwyn eu galluogi i gyflawni cyfrifoldebau statudol ar gyfer Adroddiad Cydraddoldeb Strategol blynyddol	Addysg a Gwasanaethau Plant / Rheoli Pobl (Cefnogaeth AD)	Medi 2016	Parhaus yn unol â Chytundebau Lefel Gwasanaeth
Adolygu ein proses ymgeisio a chymeradwyo dysgu a datblygu a'i monitro er mwyn sicrhau mynediad cyson a theg	Timoedd Rheoli / Rheoli Pobl (Dysgu a Datblygu)	Medi 2017	Mawrth 2017 Yn ddibynnol ar gynllun peilot a phrofi
Cynnal archwiliad Cyflog Cyfartal blynyddol er mwyn nodi a deall ein bylchau cyflog gwirioneddol a / neu dalu anghysondebau a datblygu camau gweithredu ar gyfer gwella	Grŵp Llywio Strategaeth ein Pobl / Rheoli Pobl (AD)	Mehefin 2016	Mawrth 2020
Defnyddio'r dull Dadansoddi Cyflog Cyflogaeth a Rhyw ar ein gwybodaeth	Grŵp Llywio	Mehefin	Mawrth 2020

gweithlu gan nodi unrhyw wahaniaethau cyflogaeth posibl a datblygu camau gweithredu ar gyfer gwella	Strategaeth ein Pobl / Rheoli Pobl (AD)	2016	
Defnyddio ein gwybodaeth am y gweithlu i lywio cynllunio olyniaeth a gweithlu a datblygu amcanion busnes sy'n cefnogi gwelliant cydraddoldeb	Timoedd Rheoli / Grŵp Llywio Strategaeth ein Pobl	Mehefin 2016	Mawrth 2020
Parhau i gynghori a chefnogi unedau busnes yn ystod ad-drefnu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod effaith ar y gweithlu yn cael ei asesu yn briodol	Rheoli Pobl (AD)	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Defnyddio adborth gan achrediadau allanol fel Buddsoddwyr mewn Pobl i lywio blaenoriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y dyfodol	Grŵp Llywio Strategaeth ein Pobl / Rheoli Pobl (AD, Iechyd Galwedigaethol a Dysgu a Datblygu)	Mehefin 2016	Mawrth 2020
Cynnal awdit Sgiliau Iaith ein Gweithlu	Timoedd Rheoli / Rheoli Pobl (Cefnogaeth AD, Dysgu a Datblygu)	Ebrill 2016	Mehefin 2016
Gwerthuso ac adolygu ein Hamcanion Cydraddoldeb er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi gwelliant parhaus ac adrodd yn flynyddol	Grŵp Llywio Strategaeth ein Pobl	Mehefin 2016	Ionawr 2017/18/19/20

Ein rôl fel darparwr gwasanaeth: Rydym yn darparu tua 300 o wahanol wasanaethau i bobl leol, ac mae'r rhain mor amrywiol â darparu'r gwasanaeth addysg lleol, casglu sbwriel, gofalu am bobl hŷn neu blant sy'n agored i niwed, darparu cyfleusterau hamdden, cynnal a chadw priffyrdd ac rydym yn landlord i 9000 o gartrefi cyngor. Rydym am sicrhau bod ein holl wasanaethau yn cael eu darparu'n unol â'r ymrwymïadau sydd yn y Cynllun Strategol hwn.			
Amcan Cydraddoldeb: Parhau i weithio i ddileu rhwystrau o ran mynediad at wasanaethau'r Cyngor a sicrhau ystyriaeth briodol i bob grŵp wrth wneud penderfyniadau			
Gweithred	Adran / isadran sy'n gyfrifol	Dyddiad cychwyn	Dyddiad gorffen
Parhau i weithredu gwelliannau hygyrchedd i wefan Cyngor Sir Caerfyrddin	Adfywio a Pholisi	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Parhau i gyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth staff, gan gynnwys drwy ddarpariaeth ar-lein	Dysgu a Datblygu	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Annog adborth gan y cyhoedd ar faterion hygyrchedd	Adfywio a Pholisi	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Parhau i sicrhau bod Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu hymgorffori yn y broses o wneud penderfyniadau ac fel rhan o gyfrifoldebau o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Adfywio a Pholisi	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Cefnogi'r broses Asesu Effaith drwy ddatblygu cyfres o broffiliau cymunedol, gan ddangos ffeithiau allweddol ar gyfer grwpiau demograffig penodol	Adfywio a Pholisi	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Monitro cwynion sydd â dimensiwn cydraddoldeb fel ffordd o	Adfywio a Pholisi	Ebrill 2016	Mawrth 2020

ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau			
Sicrhau bod yr holl drefniadau contractio (gan gynnwys adolygiadau) yn cynnwys amodau priodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010	Uned Caffael Corfforaethol	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Cefnogi mecanweithiau ymgysylltu allweddol, gan gynnwys Sir Gâr Cyfartal, y Gynghrair Anabledd, y Fforwm 50+ a'r Cyngor Ieuenctid	Adfywio a Pholisi	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Datblygu prosiect peilot ar wella mynediad at lwybrau cefn gwlad ym Mharc Gwledig Pen-bre, mewn cydweithrediad â'r Gynghrair Anabledd	Adfywio a Pholisi	Ebrill 2016	Mawrth 2020

Ein rôl fel darparwr gwasanaeth: Rydym yn darparu tua 300 o wahanol wasanaethau i bobl leol, ac mae'r rhain mor amrywiol â darparu'r gwasanaeth addysg lleol, casglu sbwriel, gofalu am bobl hŷn neu blant sy'n agored i niwed, darparu cyfleusterau hamdden, cynnal a chadw priffyrdd ac rydym yn landlord i 9000 o gartrefi cyngor. Rydym am sicrhau bod ein holl wasanaethau yn cael eu darparu'n unol â'r ymrwymadau sydd yn y Cynllun Strategol hwn.

Amcan Cydraddoldeb: Helpu gwneud y mwyaf o botensial pobl, trwy'r system addysg a thrwy gefnogi twf yr economi leol

Gweithred	Adran / isadran sy'n gyfrifol	Dyddiad cychwyn	Dyddiad gorffen
Datblygu economi wybodaeth ac arloesedd trwy Brosiect Gweithffyrdd+ fel nodwyd yn y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth sirol, i gynyddu cyflogadwyedd pobl di-waith ac Anweithgar yn Economaidd hirdymor 25 oed a throsodd, sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth	Adfywio a Pholisi	Ebrill 2016	
Byddwn yn cynyddu % y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim a gyflawnodd y trothwy lefel 2 gan gynnwys gradd TGAU A* - C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg	Addysg a Gwasanaethau Plant	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Byddwn yn cyflwyno llythrennedd, rhifedd a Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) ar gyfer trigolion Sir Gaerfyrddin a'r rhai sy'n ymfudo i'r sir	Addysg a Gwasanaethau Plant	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Byddwn yn cefnogi ysgolion, ar y cyd â ERW, i wella canlyniadau ar gyfer pob disgybl, ond gyda phwyslais arbennig ar godi cyflawniadau disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal	Addysg a Gwasanaethau Plant	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Byddwn yn gweithredu yn llawn y 'Proffil Asesu agored i niwed' ym mhob Ysgol Uwchradd ar gyfer Blynnyddoedd 7-11 i sicrhau adnabyddiaeth gynnar o'r holl bobl ifanc sydd mewn peryg o fod yn NEET	Addysg a Gwasanaethau Plant	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Byddwn yn sefydlu panel newydd 'Pobl Ifanc Agored i Niwed' i gydlynu cymorth ar gyfer pobl ifanc agored i niwed yng Nghyfnod Allweddol 4	Addysg a Gwasanaethau		

	Plant		
Byddwn yn parhau i hyrwyddo presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol i wneud y gorau o gyfleoedd addysgol a lles plant, gan herio presenoldeb gwael ac absenoldeb parhaus yn gadarn	Addysg a Gwasanaethau Plant	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Byddwn yn datblygu rhaglen ymgysylltu teulu i gefnogi teuluoedd i gymryd rhan mewn addysg	Addysg a Gwasanaethau Plant	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Byddwn yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion 15 oed sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith wedi ennill cymhwyster allanol cymeradwy	Addysg a Gwasanaethau Plant	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Byddwn yn cynyddu % y plant sy'n derbyn gofal a'r cymorth sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau craidd yng nghyfnodau allweddol 2 a 4	Addysg a Gwasanaethau Plant	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Byddwn yn parhau i hyrwyddo amcanion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	Addysg a Gwasanaethau Plant	Ebrill 2016	Mawrth 2020

Ein rôl fel Arweinydd Cymunedol: Rydym am hybu goddefgarwch a dealltwriaeth a helpu i adeiladu cymuned gydlynol ac unedig yn Sir Gaerfyrddin. Byddwn yn hyrwyddo egwyddorion cydraddoldeb ac amrywedd fel y'u nodir yn y Cynllun Strategol hwn drwy weithio gyda phartneriaid a chyrff cymunedol ledled y sir.

Amcan Cydraddoldeb: Cefnogi cymunedau cydlynol trwy hyrwyddo ymgysylltu cymunedol a dinesig

Gweithred	Adran / isadran sy'n gyfrifol	Dyddiad cychwyn	Dyddiad gorffen
Cefnogi gweithrediad y Cynllun Cydlyniad Cymunedol Cenedlaethol	Adfywio a Pholisi	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Troseddau Casineb - Cynnal a chefnogi codi ymwybyddiaeth a chyfeirio dioddefwyr i wasanaethau adrodd a chymorth	Adfywio a Pholisi	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr - cefnogi ymgysylltiad a mynediad at wasanaethau ac adeiladu cysylltiadau da gyda'r gymuned ehangach	Adfywio a Pholisi Tai a Diogelu'r Cyhoedd Cynllunio	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Darparu'r Rhaglen Adsefydlu Syria. Cefnogi cymunedau drwy newidiadau o ganlyniad i fewnfudo	Adfywio a Pholisi Tai a Diogelu'r Cyhoedd	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Annog Cysylltiadau Da. Cefnogi'r gwaith o adeiladu cymunedau gwydn a chydlynol	Adfywio a Pholisi	Ebrill 2016	Mawrth 2020
Ymgysylltu gyda, a chefnogi grwpiau cymunedol sy'n cynrychioli'r Nodweddion Gwarchoddedig	Adfywio a Pholisi	Ebrill 2016	Mawrth 2020

Ein rôl fel Arweinydd Cymunedol: Rydym am hybu goddefgarwch a dealltwriaeth a helpu i adeiladu cymuned gydlynol ac unedig yn Sir Gaerfyrddin. Byddwn yn hyrwyddo egwyddorion cydraddoldeb ac amrywedd fel y'u nodir yn y Cynllun Strategol hwn drwy weithio gyda phartneriaid a chyrff cymunedol ledled y sir.

Amcan Cydraddoldeb: Byddwn yn annog ffordd o fyw iachus a hyrwyddo pwysigrwydd lles

Gweithred	Adran / isadran sy'n gyfrifol	Dyddiad cychwyn	Dyddiad gorffen
Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a sicrhau y cydymffurfir â'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar draws pob maes gwasanaeth	Cymunedau	Ebrill 2016	Ebrill 2018
I weithredu'r camau o fewn y cynllun Dementia Rhanbarthol yn unol â chanfyddiadau adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn 'Mwy na dim ond Cholli Cof'	Cymunedau	Ebrill 2016	Ebrill 2018
Cyfrannu at raglenni trawsnewid iechyd ym maes iechyd meddwl ac ailgynllunio gwasanaethau o fewn anabledd dysgu	Cymunedau	Ebrill 2016	Rhagfyr 2017
Sefydlu a hyrwyddo neges "mae'n gyfrifoldeb i bawb" tuag at ddiogelu yn Sir Gaerfyrddin trwy weithio gyda chydweithwyr awdurdodau lleol ac asiantaethau partner	Cymunedau	Ebrill 2016	Rhagfyr 2017
I weithredu strategaeth gadarn ar gyfer rheoli ceisiadau Safonau Diogelu newydd a hanesyddol yn llwyddiannus	Cymunedau	Ebrill 2016	Mai 2017
Gweithredu'r Cynllun Tai Fforddiadwy	Cymunedau	Ebrill 2016	Mawrth 2019